



Gwasanaeth Tân ac Achub  
De Cymru

South Wales  
Fire and Rescue Service

# Cynllun Lleihau Carbon 2020-2023

---



## Rhagair

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru yn cydnabod pa mor bwysig yw sicrhau ein bod wedi ymrwymo i leihau ein hallyriadau carbon a'r effaith a gawn ar yr amgylchedd ym mhopeth a wnawn. Mae'r Cynllun Lleihau Carbon hwn (2020-2023) yn nodi sut y byddwn yn parhau i wella'r ffyrdd yr ydym yn defnyddio ein hadnoddau i achosi cyn lleied o niwed â phosib i'n hamgylchedd. Bob blwyddyn daw hwn yn fwy pwysig wrth i'n hymwybyddiaeth gynyddu ynghylch pwysigrwydd hanfodol newid ein hymddygiad o ran newid yn yr hinsawdd a chynaliadwyedd. Mae deddfwriaeth a rheoleiddio yn adlewyrchu'r flaenoriaeth hon ac rydym wedi ymrwymo i sicrhau ein bod yn cwrdd â'n gofynion ac yn rhagori ar y disgwyliadau lle bo hynny'n bosibl.

Gan gynnwys sut i deithio i'r gwaith, o ba gwpan i yfed, sut rydym yn dylunio gwasanaeth newydd, lle rydym yn cynnal cyfarfod a'r myrdd o ddewisiadau a wnawn yn ein bywyd bob dydd, rhaid bod cynaliadwyedd yn sail i bob dewis a wnawn a phob gweithred a gymerwn fod yn rhan annatod o gyflawni ein gweledigaeth, ein cenhadaeth a'n nodau strategol.

Eleni rydym wedi cyfrifo ein hól troed carbon ac mae'r ymgysylltiad â'n staff wedi bod yn ddefnyddiol iawn i'n helpu i adnabod lle mae angen i ni newid ein hymddygiad a sut i wneud hynny. Mae hyn wedi ein helpu i flaenoriaethu'r meysydd allweddol yr ydym am ganolbwyntio arnynt ar gyfer y flwyddyn nesaf y ceir amlinelliad ohonynt yn y cynllun gweithredu manwl. Rydym hefyd yn cydnabod y bydd llawer o'r mesurau yr ydym yn bwriadu eu cymryd i leihau ein hól troed carbon hefyd yn ein helpu i weithredu'n fwy effeithlon, torri costau a mynd rhywfaint o'r ffordd i'n hamddiffyn rhag cynnydd ym mhrisiau costau tanwydd ac ynni anochel y dyfodol.

Gan ddefnyddio'r wybodaeth a gasglwyd a gweithio gyda'n staff pwrpasol ill dau, byddwn yn gallu gosod targedau heriol ac adrodd ar ein cynnydd ar y daith i ddod yn sefydliad carbon niwtral.

## Cyflwyniad

Ni ellir datgan yn ddigon cryf y bydd cwrdd ag uchelgais Llywodraeth Cymru i fod yn niwtral o ran carbon erbyn 2030 yn hynod heriol. Nid yw'n glir eto a yw'n nod cyraeddadwy, fodd bynnag, mae'n uchelgais y mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru yn barod i geisio ei dilyn ac wrth geisio cyflawni'r nod byddwn yn symud ymlaen a gwella'r Gwasanaeth ill dau yn hytrach na dewis anwybyddu'r her. Mae'r dystiolaeth sydd ar gael yn dangos bod graddfa'r newid yn ddigynsail, bydd angen newid system ar raddfa fyd-eang a chenedlaethol i gefnogi newidiadau i'r system leol.

Felly, nid nod perfformiad gwasanaeth arall i aelodau a swyddogion, lle mae rheolaeth ac atebolrwydd yn glir yw hwn, ond her lle nad yw crynswth yr atebion sydd eu hangen yn glir a lle bydd y dull a gymerir yn dod i'r amlwg. Bydd angen i ni roi trefniadau llywodraethu priodol ar waith i sicrhau atebolrwydd, craffu a chefnogaeth trwy'r prosesau penderfynu presennol.

Mae newid hinsawdd eisoes ar ein gwarthaf. Er bod effeithiau gweladwy hwn i'w gweld mewn lifogydd cynyddol a dwyster gwynt, glaw a stormydd, mae effeithiau cudd hefyd megis sychder, bioddiogelwch gyda'r risg o rywogaethau goresgynnol, a newidiadau tymhorol i'r cadwyni bwyd ar gyfer rhywogaethau. Haf 2018 oedd y poethaf ar y cyd a gofnodwyd erioed yng Nghymru, a gallai tymereddau'r haf gynyddu hyd at 10 gradd canradd mewn rhannau o'r DU os bydd cynhesu byd-eang y taflwybr presennol yn parhau.

Er bod rhai manau o'r byd yn dioddef effeithiau mwy difrifol ac uniongyrchol (megis ardaloedd isel De Ddwyrain Asia), nid yw Cymru na'r DU ehangach yn ddiogel rhag hyn oll. Mae'r effeithiau hyn amlygu'r angen i weithredu'n syth ar leihau ein hallyriadau. Mae'r manylion a nodir yn y Cynllun Gweithredu yn gofyn i ni wneud penderfyniadau da ynghylch yr hyn yr ydym yn buddsoddi ynddi, felly mae'n rhaid i ni ddeall canlyniadau newid hinsawdd o ganlyniad i weithredu neu beidio.

Mae Sefydliad Iechyd y Byd yn nodi newid hinsawdd fel y bygythiad mwyaf i iechyd byd-eang yn yr unfed ganrif ar hugain. Bydd yr effeithiau ar Dde Cymru, er gwaethaf bod yn llai na nifer o rannau eraill yn y byd, yn dal i fod yn sylweddol. Bydd cynnydd o ran dyddiau gyda thywydd llethol a bydd tymor y tywydd llethol yn hirach, gan arwain at fwy o risg o danau gwyllt a bydd cyfnodau o law trymach hefyd, gan gynyddu'r tebygolrwydd o lifogydd eang. Bydd digwyddiadau o'r fath yn cael effaith sylweddol ar ein Gwasanaeth, felly mae'n bwysig ein bod yn gweithredu ac yn gosod esiampwl bwysig trwy leihau ein heffeithiau ar yr amgylchedd.

## Cyd-destun

Mae newid hinsawdd yn fygythiad gwirioneddol ac uniongyrchol i ni i gyd. Mae lefelau carbon deuocsid (CO<sub>2</sub>) eisoes wedi cyrraedd eu lefel uchaf ers bron i hanner miliwn o flynyddoedd ac maent yn codi'n gyflymach nag erioed. Fel pob sefydliad sector cyhoeddus, mae gan Wasanaeth Tân ac Achub De Cymru ran allweddol i'w chwarae wrth liniaru effeithiau newid hinsawdd - fel arweinydd cymunedol a thrwy'r gwasanaethau a ddarparwn ill dau. Mae'r Gwasanaeth yn ddefnyddiwr ynni sylweddol ac yn ffynhonnell uniongyrchol o allyriadau CO<sub>2</sub> sy'n deillio o'n gweithgareddau a'n hadeiladau. Ni fydd De Cymru yn imiwn i effeithiau newid hinsawdd ac felly mae angen i ni weithredu nawr i addasu a rheoli risgiau i ddarparu gwasanaethau, cymunedau lleol, seilwaith, busnesau a'r amgylchedd naturiol. Mae her newid hinsawdd i'r Awdurdod yn cynnwys:

- Lleihau ôl troed carbon y Gwasanaeth;
- Paratoi ar gyfer effeithiau hinsawdd sy'n newid.

Ar wahân i'r achos moesol ac amgylcheddol dros weithredu i fynd i'r afael â newid hinsawdd, mae yna lawer o ysgogyddion eraill i'r Gwasanaeth fynd i'r afael â'r mater hwn.

Mae'r rhain yn cynnwys:

- ❖ cwmpas sylweddol ar gyfer defnyddio ynni'n fwy effeithlon i sicrhau arbedion cost
- ❖ effaith y cynnydd mewn prisiau ynni a thanwydd yn y dyfodol

Yn benodol, bydd gan y rhain dair prif effaith ar y Gwasanaeth:

- Darparu gwasanaethau;

Mae newid hinsawdd yn cael effaith sylweddol ar y gwasanaethau rydyn ni'n eu darparu a'r ffordd rydym yn eu darparu. Rydym eisoes wedi gweld effeithiau cyfnodau hir o danau glaswellt yn ystod haf 2018 a'r llyfogydd difrifol ar draws sawl rhan o Dde Cymru yn gynnar yn 2020. Felly mae angen i ni sicrhau bod y ffordd yr ydym yn darparu ein gwasanaethau yn cael yr effaith leiaf ar yr amgylchedd.

- Ariannol;

Yn amlach na pheidio bydd prosiectau i leihau carbon yn gofyn am fuddsoddiad ariannol. Fodd bynnag, mae'r mwyafrif o'r cynlluniau, yn enwedig y rhai sy'n targedu effeithlonrwydd ynni a thanwydd, yn arwain at arbedion a fydd yn gorbwysu'r costau cychwynnol yn aml.

- Enw da a rôl y Gwasanaeth fel arweinydd cymunedol.

Fel arweinydd cymunedol sydd ag enw da rhagorol mae gan y Gwasanaeth rôl sylweddol i'w chwarae wrth sicrhau bod pob un o'n cymunedau'n dilyn ffyrdd o fyw carbon is. Mae'r Gwasanaeth yn cydnabod na all wneud hyn ar ei ben ei hun ond trwy hybu arfer gorau a gweithio gydag eraill ym mhob sector gallwn gael effeithiau cadarnhaol i'r dyfodol.

## Maint yr Her

Er mwyn i ni ddeall maint gwirioneddol yr her sy'n ein hwynebu fel sefydliad rydym wedi cyfrifo ein hól troed Carbon am y tro cyntaf. Yn y gorffennol rydym wedi disgyn yn is na throthwyon Llywodraeth Cymru ar gyfer adrodd ond gyda dileu'r trothwy hwn, erbyn hyn, rhaid i ni gyfrifo ein heffaith ac felly cymryd camau priodol i leihau ein heffaith.

Mynegir ôl troed carbon fel CO<sub>2</sub>e - Cyfwerth â Charbon Deuocsid.

Mae ôl troed carbon y 'Services' yn seiliedig ar ddefnydd ynni a defnydd tanwydd ein hystâd, gweithgareddau yr ymgymeryd â hwy wrth ddarparu ein gwasanaeth a'r gwastraff a gynhyrchwn. Mae hefyd yn cynnwys amcangyfrif o'r allyriadau o'n cadwyn gyflenwi a busnes staff a milltiroedd cymudo, a chyfran o'r teithio busnes ar drafnidiaeth gyhoeddus.

Mae Ffigwr 1, isod, yn rhoi dadansoddiad o allyriadau CO<sub>2</sub> y gwahanol feysydd amrywiol ar gyfer 2018/19 gan gynnwys

Fflyd	2,655 tonnell CO <sub>2</sub> e
Ynni	1,848 tonnell CO <sub>2</sub> e
Cadwyn gyflenwi Caffael	5,283 tonnell CO <sub>2</sub> e
Milltiroedd Busnes	154 tonnell CO <sub>2</sub> e

## Beth ydym wedi ei wneud yn barod?

Rydym eisoes wedi cychwyn ar ein taith tuag at ddod yn sero-net carbon niwtral trwy ganolbwyntio ar leihau ein defnydd o ynni ers 2011. Mae ein defnydd o drydan wedi lleihau 20% a'r defnydd o nwy 25% (Ebrill 2011 i Fawrth 2019). Mae ein sector ynni wedi cael ei drawsnewid hefyd, mae contract Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol Cymru ar gyfer trydan yn cadarnhau bod 100% o'n trydan yn dod o gyflenwad ynni adnewyddadwy o 2018/19.

Rydym hefyd wedi ymgymryd â'r prosiectau canlynol i gefnogi gostyngiadau ynni pellach.

- Gosod goleuadau DAG yn ein safle Pencadlys a mwyafrif ein gorsafoedd
- Gosod Systemau Rheoli Adeiladau i fonitro a rheoli'r defnydd o ynni ar draws ein hystâd
- Cwblhau rhaglen amnewid boeleri i gael gwarded ar systemau aneffeithlon sydd wedi dyddio
- Cysylltu drysau bae peiriannau â rheolyddion gwresogi sy'n diffodd yn awtomatig pan fydd drysau ar agor

## Dull Strategol

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 wrth wraidd y broses benderfynu ar draws y Gwasanaeth. Mae ein blaenoriaethau gwasanaethu wedi'u halinio â'r saith nod lles a'r pum ffordd o weithio. Un o'n prif themâu strategol yw 'Diogelu'r Amgylchedd' sy'n amlinellu **"Cyflawni ein gweithgareddau mewn modd sy'n helpu cynnal y blaned ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol"** felly i amlygu ein hymrwymiad i brif ffrydio lleihau carbon a diogelu'r amgylchedd, ein nod yw hysbysu ein staff a'n cymunedau o'n hymrwymiad yn ogystal â dyrannu digon o adnoddau i gyflawni ein hamcanion a chyflawni'r targedau heriol.

Yr amcanion a nodwyd ar gyfer 2020/21 yw

- **Lleihau ein defnydd o ynni ac archwilio dulliau amgen**
- **Lleihau ein defnydd o ddeunyddiau un defnydd**
- **Archwilio i'r defnydd o gerbydau trydan**
- **Lleihau faint o wastraff a gynhyrchir**
- **Gwarchod a dyrchafu ein bioamrywiaeth a'n cynefinoedd**
- **Ystyried sut mae ein gweithgareddau'n effeithio ar yr amgylchedd**
- **Arwain ein Cymunedau trwy arddangos a hyrwyddo arferion amgylcheddol da**

Er mwyn sicrhau bod cynaliadwyedd yn cael ei ymgorffori yn y Gwasanaeth dylai strategaethau a phrosiectau gefnogi effeithiau amgylcheddol trwy ystyried effeithlonrwydd ynni, lleihau gwastraff, llai o deithio ac ailddefnyddio ac ailgylchu cynhyrchion pryd bynnag y bo hynny'n bosibl.

## Sut byddwn yn cyflawni'r blaenoriaethau hyn a chyrraedd ein targedau?

Byddwn yn llunio cynlluniau gweithredu i fynd i'r afael â'r blaenoriaethau allweddol hyn gan fesur yn flynyddol y cynnydd o ran eu cyflawni.

## Sut byddwn yn mesur ein llwyddiant?

- Bydd allyriadau carbon yn lleihau - gan gyrraedd neu ragori ar ein targedau;
- Bydd ffynonellau ynni adnewyddadwy a charbon isel yn cynyddu gan gyrraedd neu ragori ar ein targedau;
- Gweithredir mesurau addasu beirniadol;
- Bydd datblygiadau / offer / cyflenwadau newydd a gynlluniwyd yn cael cyn lleied o effaith ar yr amgylchedd â phosibl.

## **Bydd yr egwyddorion canlynol yn ein harwain ar ein taith i leihau carbon**

Dysgu gan bobl eraill a dod yn esiampl o arfer da

Datblygu Prosiectau Lleihau Carbon a reolir yn effeithiol

Adnabod unrhyw risgiau a chyfleoedd o'r cynlluniau lleihau carbon

Sefydlu goblygiadau Amgylcheddol i'n proses benderfynu

Sicrhau bod arferion caffael cynaliadwy'n weithredol ar draws pob maes o fewn y Gwasanaeth.

Annog, ymgysylltu a chefnogi eraill wrth leihau eu holion troed carbon

Codi ymwybyddiaeth ac ymroddiad

Monitro ac adrodd ar ein perfformiad yn gyson

Cyflawnir economi ac effeithlonrwydd drwy ein gweithrediadau lleihau carbon

## **Meysydd Ffocws**

### **Eiddo**

Bydd cyfran fawr o'r cyfleoedd i'r Gwasanaeth leihau'r ôl troed carbon yn dod o ganlyniad i'r ffordd yr ydym yn gweithredu ac yn cynnal ein hystâd.

### **Fflyd**

Mae'r Gwasanaeth yn gweithredu fflyd o dros 367 o gerbydau o wahanol feintiau i gwmpasu'r holl weithgareddau a wneir ar draws y sefydliad. Mae'r mwyafrif o'n cerbydau yn beiriannau tanwydd disel ond maent yn fodern ac yn cael eu cynnal i safonau uchel gan sicrhau'r allyriadau isaf posibl.

### **Teithio**

Wrth gyflawni ein dyletswyddau mae adegau pan fydd teithio busnes yn ofyniad hanfodol. Mae'r Gwasanaeth yn rhedeg ceir swyddogion, fflyd o gerbydau cyflenwi a 'theithio llwyd' lle mae staff yn defnyddio eu cerbydau **personol** at ddibenion busnes. Bydd y Gwasanaeth yn adolygu'r gofynion cyfredol ar gyfer teithio busnes ac yn ceisio lleihau lefel y teithio yn ogystal ag archwilio dulliau cludo carbon isel.

### **Technoleg**

Bydd technoleg newydd yn chwarae rhan sylweddol wrth ddatblygu a symleiddio arferion gwaith, a fydd yn y pen draw yn cael effaith gadarnhaol i leihau ein hól troed carbon. Mae gallu gweithio gartref a gweithio o bell yn cefnogi llai o deithio.

### **Caffael**

Mae'r Gwasanaeth yn gwario tua £22 miliwn ar nwyddau a gwasanaethau bob blwyddyn. Fel yr amlygwyd yn ôl troed carbon y Gwasanaeth, mae gan lawer o'n penderfyniadau caffael y potensial i leihau allyriadau CO<sub>2</sub>. Mae strategaeth gaffael gynaliadwy, lle mae ystyriaethau amgylcheddol yn orfodol, yn cael ei gweithredu a fydd yn ein galluogi i symud gwelliannau amgylcheddol ymlaen yn ogystal â defnyddio



ein gallu prynu i ddylanwadu ar welliannau ar draws y marchnadoedd a ddefnyddiwn. Bydd ein tîm caffael yn gweithio gyda'n cyflenwyr a'n cyrff partner fel y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol a darparwyr Fframwaith eraill i sicrhau ein bod yn sefydlu gwell effeithiau amgylcheddol.

## **Gwastraff**

Mae cynhyrchu gwastraff yn ychwanegu at lefel yr allyriadau carbon ac felly mae'n harferion gwastraff yn cael ei ddylanwadu gan yr agenda lleihau carbon. Mae angen i ni leihau maint y gwastraff sy'n cael ei anfon i safleoedd tirlenwi a chynyddu maint y gwastraff sy'n cael ei ailgylchu ar hyn o bryd.

## **Cyflenwadau ac Offer**

Bydd angen amnewid yr holl adnoddau ac offer a brynir gan y Gwasanaeth yn y dyfodol i sicrhau bod dull bywyd cyfan yn cael ei gymryd. Bydd hyn yn sicrhau bod yr holl gostau gan gynnwys prynu, defnyddio'r eitemau ac ystyriaethau gwaredu yn cael eu cipio yn y broses benderfynu gychwynol. Lle bo modd, defnyddir adnoddau a ailgylchir ac ar ddiwedd oes rhoddir ystyriaeth i'w haildefnyddio neu eu hailgylchu.

## **Dŵr**

Mae newid hinsawdd yn debygol o gynyddu'r galw am ddŵr wrth hefyd leihau cyflenwadau dŵr. Byddai'r cydbwysedd cyfnewidiol hwn yn herio rheolwyr dŵr i ddiwallu anghenion cymunedau sy'n tyfu, ecosystemau sensitif, ffermwyr, tyddynwyr, cynhyrchwyr ynni a gwneuthurwyr ar yr un pryd.

Mewn rhai ardaloedd, bydd prinder dŵr yn llai o broblem na dŵr ffo ychwanegol, mwy o lifogydd neu gynydd yn lefel y môr. Gall yr effeithiau hyn amharu ar ansawdd y dŵr a gall niweidio'r seilwaith a ddefnyddiwn i gludo a darparu dŵr.

## **Cyllid**

Mae'r hinsawdd economaidd wedi profi'n heriol i'r sector cyhoeddus cyfan yn enwedig wrth ystyried y gofynion i gyflawni'r potensial i fynd i'r afael ag effeithiau amgylcheddol. Fodd bynnag, gyda chynllunio priodol, gellir defnyddio cyfleoedd lleihau carbon mewn ffyrdd cost-effeithiol. Felly byddwn yn ceisio cyfleoedd ar gyfer ffynonellau cyllid allanol, blaenoriaethu gwariant ar fesur sy'n rhoi enillion uchel (carbon ac ariannol) a chorffori egwyddorion buddsoddi i gynilo a'r economi gylchol.

## **Newid Ymddygiad**

Mae'r mwyafrif o gynlluniau i leihau ôl troed carbon y Gwasanaeth yn cael eu hystyried ar lefel sefydliadol, a gall newidiadau ymddygiad unigol gan bob un o'n staff effeithio'n ddirfawr ar leihau ein hallyriadau carbon. Bydd codi ymwybyddiaeth o raddfa'r her yn gweithredu fel catalydd i annog yr holl bersonél i gefnogi ymdrechion y sefydliad trwy wneud newidiadau bach lle gallant i leihau ynni, lleihau teithio, lleihau gwastraff ac ailgylchu mwy.

## Targedau Darparu

Y targedau arfaethedig ar gyfer lleihau ein hallyriadau CO2 o waelodlin 2018/19

**2023 I leihau ein hallyriadau carbon 25%**

**2030 I leihau ein hallyriadau carbon 50%**

**2040 I leihau ein hallyriadau carbon 65%**

**2050 I leihau ein hallyriadau carbon 80%**

## Cynllun Gweithredu

<b>CAM</b>	<b>PERCHENNOG</b>	<b>DYDDIAD</b>
Ymgysylltu a chyfathrebu ar draws y Gwasanaeth i godi ymwybyddiaeth ac annog syniadau ar gyfer lleihau carbon	<b>Pennaeth Cyllid, Caffael ac Eiddo</b>	Gorffennaf 2020
Gwella cofnodi, monitro ac adrodd ar yr holl effeithiau carbon ar draws y Gwasanaeth	<b>Pennaeth Cyllid, Caffael ac Eiddo</b>	Gorffennaf 2020
Sefydlu eiriolwyr amgylcheddol ar gyfer pob adran a gorsaf	<b>Pennaeth Cyllid, Caffael ac Eiddo</b>	Medi 2020
Cynnwys ymwybyddiaeth o effaith amgylcheddol mewn rhaglenni anwytho a datblygu	<b>Cyfarwyddwr Gwasanaethau Pobl</b>	Medi 2020
Cyflwyno gwobrau blynyddol i gydnabod a gwobrwyo'r effaith gadarnhaol fwyaf a'r datrysiad mwyaf arloesol	<b>Dirprwy Brif Swyddog Tân</b>	Gorffennaf 2021
Datblygu partneriaethau gyda Gwasanaeth Ynni Cymru, Cynnal Cymru, a'r Ganolfan Newid Hinsawdd a'r Ganolfan Drawsnewid Cymdeithasol i godi ymwybyddiaeth a datblygu cynlluniau pellach i gefnogi'r cynllun	<b>Pennaeth Cyllid, Caffael ac Eiddo</b>	Rhagfyr 2020
Cwblhau rhaglen gosod goleuadau DAG ar draws ein holl leoliadau	<b>Pennaeth Cyllid, Caffael ac Eiddo</b>	Medi 2020
Gweithio gyda'r Ymddiriedolaeth Garbon i fynd i'r afael ag archwiliadau ynni yn ein lleoliadau i adnabod cyflenwadau ynni amgen mwyaf addas e.e. Paneli solar	<b>Pennaeth Cyllid, Caffael ac Eiddo</b>	Hydref 2020
Cwblhau rhaglen mesuryddion deallus ar gyfer ein holl leoliadau	<b>Pennaeth Cyllid, Caffael ac Eiddo</b>	Mawrth 2021
Ehangu treialu technoleg ystafelloedd sychu i leihau ynni ym mhob gorsaf	<b>Pennaeth Gweithrediadau</b>	Gorffennaf 2020
Adolygu a gwella ein darpariaethau cyfredol ar gyfer ailgylchu / casglu gwastraff	<b>Pennaeth Cyllid, Caffael ac Eiddo</b>	Medi 2020
Archwilio i ddefnyddio cerbydau trydan yn fflyd cerbydau ysgafn y Gwasanaeth	<b>Pennaeth Fflyd a Pheirianeg</b>	Rhagfyr 2020
Darparu manau gwefru cerbydau trydan lle bo'n bosib yn ein lleoliadau	<b>Pennaeth Cyllid, Caffael ac Eiddo</b>	Rhagfyr 2020
Lleihau amllder teithiau car mewn perthynas â gwaith	<b>Cyfarwyddwr Gwasanaethau Pobl</b>	Medi 2020
Hybu a chefnogi cyfleoedd rhannu ceir	<b>Cyfarwyddwr Gwasanaethau Pobl</b>	Medi 2020
Datblygu cynllun teithio ar gyfer y gweithle, i gynnwys gweithio gartref, gweithio o bell yn ogystal â lleoliadau gwaith arferol	<b>Cyfarwyddwr Gwasanaethau Pobl</b>	Medi 2020

Sefydlu ymagwedd oes gyfan ar gyfer yr holl offer ac adnoddau a brynir	<b>Cyfarwyddwr Gwasanaethau technegol</b>	Gorffennaf 2020
Cynnwys ystyriaethau am effeithiau ar yr amgylchedd yn ein prosesau caffael	<b>Dirprwy Brif Swyddog Tân</b>	Gorffennaf 2020
Symud tuag at amgylchedd lle na ddefnyddir papur	<b>Dirprwy Brif Swyddog Tân</b>	Gorffennaf 2020
Eithafu cyfleoedd ariannu allanol i hwyluso prosiectau lleihau carbon / amgylcheddol	<b>Pennaeth Cyllid, Caffael ac Eiddo</b>	Mawrth 2021
Adolygu ein Strategaeth Asedau ar gyfer ystadau i gynnwys gwell effeithlonrwydd ynni a lleihad CO2	<b>Pennaeth Cyllid, Caffael ac Eiddo</b>	Medi 2021
Gweithredu system gynaeafu dŵr llwyd yng nghyfleuster golchi cerbydau'r Pencadlys	<b>Pennaeth Fflyd a Pheirianeg</b>	Rhagfyr 2021
Darparu poteli dŵr alwminiwm amldefnydd ar gyfer yr holl staff i leihau'r defnydd o blastig untro	<b>Pennaeth Rheoli Risg Gweithrediadau</b>	Gorffennaf 2020
Dyrannu adnoddau wrth gefn penodol i'w defnyddio ar brosiectau lleihau carbon	<b>Trysorydd</b>	Medi 2020
Gwerthuso ymhellach y defnydd o dechnoleg i gynnal prosesau effeithlon a fydd yn lleihau ôl troed carbon y Gwasanaeth	<b>Pennaeth TGCh</b>	Mawrth 2021
Annog defnydd cynadleda fideo'n fwy ar gyfer cyfarfodydd	<b>Pennaeth TGCh</b>	Gorffennaf 2020

## Camau nesaf

Mae'r cynllun lleihau carbon a'r camau a nodwyd yn fan cychwyn da iawn ar ein taith i ddod yn garbon niwtral. Bydd y cynllun yn parhau i fod yn ddogfen fyw dros y blynyddoedd i ddod a bydd yn cael ei diweddarau wrth i wybodaeth a syniadau newydd ddod i'r amlwg. Y meysydd canlynol fydd y camau nesaf ar gyfer y flwyddyn i ddod.

- Cymeradwyo cynllun Lleihau Carbon 2020-2023 gan yr Awdurdod Tân ac Achub
- Cyhoeddi ein hól troed carbon a chynnydd yn erbyn y camau a gymerwyd hyd yn hyn
- Cydymffurfio â nodau Carbon Niwtral Llywodraeth Cymru
- Creu cnewyllyn o Eiriolwyr Gwyrdd ar draws pob rhan o'r Gwasanaeth i hyrwyddo newid ymddygiad
- Cynnal asesiadau effaith hinsawdd ar gyfer ein holl swyddogaethau
- Cefnogi ein cadwyn gyflenwi i ddeall eu hól troed carbon a'r effaith y mae'n ei chael ar ein Gwasanaeth yn well

Bydd y cynllun lleihau carbon yn cael ei adolygu a'i adrodd arno o leiaf unwaith y flwyddyn a'i adnewyddu'n rheolaidd os bydd angen i sicrhau bod y wybodaeth ddiweddaraf yn cael ei chynnwys a bod y targedau a osodwyd yn parhau'n ddilys.

## Perchnogaeth o'r Cynllun Lleihau Carbon

Bydd Uwch Dîm Rheoli'r Gwasanaeth yn

- Hyrwyddo a darparu arweinyddiaeth ar newid hinsawdd
- Gosod ac adolygu'r targedau lleihau
- Blaenoriaethu prosiectau a mesurau
- Monitro cynnydd tuag at dargedau
- Cael gwared ar rwystrau i weithredu prosiectau lleihau carbon yn llwyddiannus
- Adolygu a hyrwyddo cynlluniau sy'n gofyn am fuddsoddiad ariannol
- Sicrhau dull cydlynus o fynd i'r afael â phrosiectau i gyflawni ein hamcanion a'n targedau lleihau carbon